

SUL CYFFREDIN 28

HAGGAI 1:15B-2:9; SALM 145:1-5, 17-21;
2 THESSALONIAID 2:1-5, 13-17; LUC 20:27-38

● Gweddi agoriadol

Dduw cariad,
bydd di'r cariad sy'n preswyllo yn y lle hwn.

Dywysog tangnefedd,
bydd di'r tangnefedd sy'n preswyllo yn y lle hwn.

Ysbryd bywyd,
bydd di'r bywyd sy'n preswyllo yn y lle hwn.

Dri yn un,
bydd di'r popeth yn ein gwacter,
y cyfanrwydd yn ein hamherffeithrwydd,
popeth a ddeisyfwn.

● Moliant

Arweinydd; Mawr yw'r Arglwydd
Pawb: A theilwng iawn o fawl.

Mae'r saint a'n blaenodd
yn sôn am dy ogoniant,
eu geiriau wedi eu hetifeddu
yn dystiolaeth fyw
i'th gariad a'th ras.

Arweinydd: Mawr yw'r Arglwydd

Pawb: A theilwng iawn o fawl.

Mae dy gariad yn siarad mwy na geiriau;
mae'n llenwi ein gwacter,
yn cynhesu ein hysbryd
a'n tynnu unwaith eto
i'th freichiau.

Arweinydd: Mawr yw'r Arglwydd

Pawb: A theilwng iawn o fawl.

● **Cyffes**

Gwyddom yn ein calonnau
mai ti yw Arglwydd
y byd hwn a'r nesaf.
Gwyddom yn ein calonnau
mai ti yw'r gwirionedd:
ynot y mae pob doethineb yn tarddu.
Gwyddom yn ein calonnau
mai cariad wyt ti,
achos cyffyrddodd â'n bywydau.

Pan ddenir ni
gan eiriau sy'n temtio
ac yn ein cadw oddi ar dy lwybr,
maddau, Arglwydd, yw ein gweddi.
Trin ein calonnau
er mwyn i ni adlewyrchu
yn unig y goleuni
sy'n tarddu ynot ti.

● **Diolch**

Ysbryd Duw,
yn bresennol gyda ni,
yn byw ynom ni,
yn dod i'r golwg drwom:

Arweinydd: Llanw'r bywydau hyn
Pawb: Gyda diolch yn gorlifo i ti.

Ysbryd gwirionedd,
doethineb a thangnefedd,
afon bywyd
sy'n llifo trwom:

Arweinydd: Llanw'r bywydau hyn
Pawb: Gyda diolch yn gorlifo i ti.

Ysbryd gras,
sibrwd tyner
yn ein denu
i fywyd o wasanaeth:

Arweinydd: Llanw'r bywydau hyn
Pawb: Gyda diolch yn gorlifo i ti.